CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
2 EBRILL 2014, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cynghorwyr R Edwards, A Holmes, S Hughes, A Evans, G Roberts, D I Roberts, A Mummery (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Davies, N Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng R Edwards. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 5 Mawrth 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir Cyng A Holmes yn cynnig a Cyng A Evans yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Dol Fraint, Star (Ilwybr)** - Darllenwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn dweud bod y Cyngor yn y broses o gorfodi yr ymgeisydd i gwneud y gwaith
4.2	**Gor-yrru Star** - darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir yn dweud mae'r adran Draffig wedi cynnal arolwg cyflymder yn ddiweddar, ac o'r canlyniadau hyn, wedi penderfynu ymgynghori â'r cyngor cymuned ar y posibilrwydd o gyflwyno terfyn cyflymder o 30 milltir yr awr yn Star. Penderfynwyd symud ymlaen - pawb yn cytuno
4.3	**Cyflymder Penmynydd** - darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud byddan yn monitro cyflymder cerbydau ar y B5420 ac yn cymharu y canlyniadau gydag ystadegau cyn y newidiadau. Yn ogysal byddan yn asesu ystadegau damweiniau swyddogol ar y ffordd dros y flwyddyn nesaf. Mae'r broses honno eisioes wedi dechrau. Mae nhw hefyd wedi holi barn swyddogion eraill o fewn y Gwasanaeth (gan gynnwys y Pennaeth Gwasanaeth) ac eraill sydd yn teithio'r ffordd yn aml. Y farn yw fod y newidiadau yn adlewyrchu natur y ffordd yn well, er fod ambell un yn cwyno fod y gwaharddiad 40 mya yn dal i fod yn rhy hir. Ar ol casglu yr wybodaeth yma, bydd yn addas iawn cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned er mwyn trafod y ffordd ymlaen. Oherwydd cwynion ynghylch y gorchymyn a ceir yn gor-yrru, penderfynwyd symud ymlaen a cynnal cyfarfod cyhoeddus ar 7 Mai am 7 o'r gloch yn Neuadd Penmynydd. Bydd y Clerc yn cynnig gwahoddiad i'r Heddlu
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C131 cais llawn i dynnu ffenestr do yn Eglwys Sant Gredifael, Penmynydd - dim sylwadau
5.2	41C131A/LB Cais Adeilad Rhestredig ar gyfer tynnu ffenestr to yn Eglwys Sant Gredifael, Penmynydd- dim sylwadau
	Llofnod **Cadeirydd** **07.05.14**

5.3	Cais llawn i ail-leoli sied amaethyddol presennol ar gyfer cadw gweithredu yn Bryn Gof, Star- dim sylwadau
5.4	Dol fraint - gweler 4.1
5.5	Cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer storio nwyddau, cynnyrch a peiriannau ar dir yn Star Farm, Star (gwybodaeth yn unig)
	Prif Weithredwr
5.6	Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad - Llythyr gan Pwyllgor Safonnau. Trafodwyd y mater yma yng nghyfarfod 5 Chwefror 2014 (gweler cofnod 5.4). Dywedodd Cyng M Jones bydd yr hyfforddiant yn cael eu drefnu yn yr wythnosau nesaf a gofynwyd i'r Clerc a'r aelodau (yn enwedig rhai newydd) gwneud ymdrech i fod yn bresennol.
	Priffyrdd
5.7	Gor-yrru Star - gweler 4.2
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Penderfynwyd talu y canlynnol
7.1	Yr Urdd £45.00 (Rhent)
8	**MATERION ERAILL**
	Beinciau. Mae y Clerc wedi derbyn catalogue yn cynnwys prisiau. Penderfynwyd gofyn am prisiau lleol, pris i gosod y beinciau (un wrth y Neuadd, un top twr ac un wrth y troeiad am Bryn Gof). Ar ol derbyn y prisiau bydd y Clerc yn symud ymlaen gyda cais am grant.
	Llofnod **Cadeirydd** **07.05.14**